

CYMDEITHAS GOLFF SIROL MERCHED MÔN AC ARFON



CYFANSODDIAD (ARGRAFFIAD 2018)

Cyfeirir at y Gymdeithas fel Cymdeithas Golff Sirol Merched Môn ac Arfon, ac o hyn ymlaen, fel y Gymdeithas.

Pwrpas y Gymdeithas yw hyrwyddo ac annog Golff yn y ddwy Sir (ar wahân i Reoliadau Golff Sirol fel y sefydlwyd gan Bwyllgor Rheolau Golff Cymru) trwy drefnu'r Cyfarfodydd canlynol isod, ac unrhyw gyfarfodydd cyffelyb eraill y bydd y Gymdeithas, o dro i dro, yn rhoi sêl bendith iddynt:

- A Pencampwriaeth y Sir
- B Cystadleuaeth Pedwarawdau
- C Cyfarfod yr Hydref
- D4 Gemau Rhyng-sirol
- E Cystadlaethau Genethod Ifanc

Bydd y Gymdeithas yn ffurfio Rheoliadau at redeg y Cystadlaethau hyn.

1 AELODAETH

- 1(a) Mae Aelodaeth yn agored i Aelodau o Glybiau sydd gydag Aelodaeth Gyswllt â Golff Cymru ac sydd wedi eu lleoli yn yr ardal a ddiffinnir gan Golff Cymru fel Môn ac Arfon, ar yr amod na chaiff unrhyw ferch fod yn aelod o'r Gymdeithas os yw'n aelod o Gymdeithas Merched Sirol Cymru arall.

- 1(b) **Cerdyn y Sir**
Gall unrhyw Aelod o'r Gymdeithas brynu 'Cerdyn y Sir'.

2 AELODAETH ANRHYDEDDUS - IS-LYWYDDION

- 2(a) Bydd Boneddiges, sydd, dros y blynyddoedd, wedi cyfrannu ei hamser yn helaeth i faterion y Gymdeithas, yn gymwys i dderbyn Aelodaeth Anrhydeddus trwy gael ei hethol yn Is-Lywydd.
- 2(b) Yn y lle cyntaf, bydd enw'r Foneddigos o'r fath yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheolaeth a all ei hargymell i Bwyllgor Cyffredinol Cynrychiolwyr Clybiau (ar ôl hyn Pwyllgor Cynrychiolwyr) ac, os derbynir yr enw, rhoddir yr argymhelliad gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (ar ôl hyn CCB).
- 2(c) Cyfyngir y nifer o Is-Lywyddion i gyfanswm o 6.

3 SWYDDOGION

Llywydd (sy'n cadeirio'r CCB ac sydd gyda phleidlais derfynol), Is-Lywyddion (cyfyngir i 6), Capten, Is-Gapten, Capten Blaenorol, Ysgrifennydd Mygedol a Thrysorydd Mygedol.

4 Y PWYLLGOR RHEOLAETH

- 4(a) Bydd y Pwyllgor yma yn cynnwys y Llywydd, y Capten (sy'n cadeirio cyfarfodydd ac sydd gyda phleidlais derfynol), yr Is-Gapten, y Capten Blaenorol Cyfagos, yr Ysgrifennydd Mygedol a'r Trysorydd Mygedol, Rheolwr y Genethod, a dwy aelod arall o'r Gymdeithas wedi eu penodi'n flynyddol yn y CCB
- 4(b) Bydd 4 aelod yn gworwm

5 PWYLLGOR Y CYNRYCHIOLWYR

- 5(a) Bydd y Pwyllgor yma yn cynnwys y Pwyllgor Rheolaeth uchod, ac un cynrychiolydd neu ei dirprwy o bob Clwb Golff Cyswllt.
- 5(b) Y Capten neu'r Llywydd neu eu dirprwyon o Gymdeithas Merched Hŷn Môn ac Arfon.
- 5(c) Bydd Cynrychiolydd Sirol Golff Cymru a Rheolwr y Genethod iau yn aelodau yn rhinwedd eu swyddi.
- 5(ch) Bydd 4 o Swyddogion a 6 o Gynrychiolwyr yn gworwm.

- 5(d) Bydd Pwyllgor y Cynrychiolwyr yn cyfarfod, fel rheol, ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, gellir galw cyfarfodydd ychwanegol ar gais y Pwyllgor Rheolaeth.
- 5(dd) Bydd Dewiswyr yn mynychu Pwyllgorau'r Cynrychiolwyr trwy wahoddiad, ond ni fydd ganddynt bleidlais.

6 ETHOL SWYDDOGION

6(a) Llywyddion ac Is-Lywyddion

- Bydd unrhyw sedd wag ar gyfer y Swyddogion yma yn cael eu llenwi yn y CCB ar argymhelliad y Pwyllgor Rheolaeth.
- Bydd y Llywydd yn cael ei hethol am gyfnod o ddwy/dair blynedd ac ni fydd yn gymwys i gael ei hail-ethol yn y tymor canlynol.

6(b) Y Capten ac Is-Gapten

- Bydd y Capten a'r Is-Gapten yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd.

Bydd y Swyddogion hyn yn cael eu hethol fel a ganlyn:

- Bydd Pwyllgor Dewis, yn cynnwys y Capten a'r Is-Gapten presennol, y ddwy Gapten flaenorol, y Llywydd, yr Ysgrifennydd Mygedol a'r Trysorydd Mygedol, yn dewis yr Is-Gapten dilynol a sicrhau fod yr enwebiad wedi'i dderbyn erbyn Cyfarfod Pwyllgor Rheolaeth ganol yr haf. [22]
- Yn y cyfarfod ganol haf, bydd yr enwebiad yma'n cael sêl bendith ffurfiol yn ogystal â chadarnhad o enwebiad y Capten.

6(c) Ysgrifennydd Mygedol a'r Trysorydd Mygedol

- Ni ddylai'r ddwy Swyddog yma wasanaethu am fwy na chew mlynedd yn olynol, ond byddent yn gymwys i gael eu hail-ethol wedi cyfnod o flwyddyn allan o'r swydd.

6(ch) Dull Gweithredu Enwebiad

- Dylai enwebiadau i'r swyddi Ysgrifennydd Mygedol a'r Trysorydd Mygedol neu i gael eu hapwyntio i'r Pwyllgor Rheoli (2 swydd), gael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Mygedol o fewn dim llai na 7 diwrnod cyn dyddiad y CCB, gan ddatgan enw'r Cynigydd a'r Eilydd ym mhob achos, gyda thystiolaeth foddhaol o ganiatâd yr enwebedig. Mae'n rhaid i'r Cynigydd fod yn aelod o'r Gymdeithas.
- Mae'n rhaid atodi copi o'r paragraff uchod i Hysbysiad y CCB.

- Mewn achlysur pan fo gormod o enwebiadau i unrhyw un o'r swyddi uchod, fe ddylid cynnal pleidlais.

6(d) Dewiswyr Tîm

Dylid ethol y Swyddogion hyn gan y Pwyllgor Rheolaeth. [22]

- Byddant yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd ac yn gymwys i gael eu hail-ethol ar ôl blwyddyn allan o'r swydd.
- Bydd un Dewisydd yn ymddeol bob blwyddyn mewn trefn.
- Petai Dewisydd yn ymddeol cyn cwblhau ei hamser yn y Swydd, yna fe apwyntir Dewisydd newydd yn ei lle i gwblhau'r cyfnod gwreiddiol mewn Swydd. Os yw hyn yn fwy na blwyddyn, ni fydd yn gymwys i gael ei hail-ethol y flwyddyn ddilynol.
- Bydd y ddwy Ddewisydd yma yn mynychu Cyfarfodydd Cynrychiolwyr trwy wahoddiad, heb bwerau pleidleisio.

7 CYNRYCHIOLWYR CLYBIAU

7(a) Bydd angen i bob Clwb Cyswllt Môn ac Arfon apwyntio Cynrychiolydd.

7(b) Rhaid i'r Cynrychiolydd fod yn Aelod o'r Gymdeithas a bydd yn gynrychiolydd i bwrras pleidleisio yng Nghyfarfod y Cynrychiolwyr. (O.N. 1 bleidlais gan bob Cynrychiolydd/Clwb)

7(c) Petai Gynrychiolydd yn methu â bod yn bresennol, yna dylai'r Clwb wneud pob ymdrech i gael dirprwy i fod yn bresennol.

(7ch) Dylai'r Cynrychiolydd gyfathrebu'n llawn rhwng y Gymdeithas â Phwyllgor Merched ac Aelodau ei Chlwb ei hun.

7(d) Bydd pob Cynrychiolydd yn cael ei hethol yn flynyddol gan ei Chlwb a dylid gyrru ei henw a'i chyfeiriad ar y daflen enwebu cyn gynted â phosib ar ôl ei hetholiad

8 Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

8(a) Cynhelir y Cyfarfod yn flynyddol gyda'r lleoliad a'r dyddiad i'w penodi gan y Pwyllgor; fel arfer bydd y Cyfarfod yng Nghlwb Golff Sant Deiniol, Bangor ym mis Tachwedd.

8(b) Gyrrir hysbysiad am y Cyfarfod a'r Agenda i Glybiau'r Gymdeithas i'w harddangos ar hysbysfyrdau'r Clybiau hyn ddim llai na THAIR WYTHNOS cyn dyddiad y CCB.

- 8(c) Gyrrir cynigiadau yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd ddim llai na THAIR WYTHNOS cyn dyddiad y CCB.
- 8(ch) Bydd angen dwy ran o dair o'r pleidleisiau yn y CCB i Newid Rheolau.
- 8(d) Gellir galw Cyfarfodydd Arbennig neu Anghyffredin ar ddisgresiwn y Pwyllgor Rheolaeth neu ar gais deg Aelod o bedwar Clwb o leiaf.
- 8(dd) Bydd 12 Cynrychiolydd yn gworwm yn y CCB.
- 8(e) Pleidleisio yn y CCB
Mae hawl gan bob aelod o'r Gymdeithas fod yn bresennol yn y CCB ond dim ond yr Anfonogion fydd â hawl i bleidleisio. Caniateir i bob Clwb gael UN BLEIDLAIS wedi ei fwrw gan yr Anfonog neu ei phenodedig. Mewn achlysur pan fo'r pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan 'Y Gadair' y bleidlais ddyfarnu.
- 8(f) Hysbysiad i Glybiau:
Yn dilyn y CCB, bydd yr Ysgrifennydd Mygedol yn gyrru rhestr lawn o'r Swyddogion a rhestr o unrhyw newidiadau Rheolau a wnaethpwyd yn y CCB i Gynrychiolydd pob Clwb ar gyfer eu hysbysfyddau. Ar ddisgresiwn yr Ysgrifennydd, gellir gyrru cofnodion y CCB yn fuan ar ôl y cyfarfod neu 3 wythnos cyn y CCB dilynol,

9 CYFARFOD CYFFREDINOL ANGHYFFREDIN (ar ôl hyn CCA)

- 9(a) Os oes awydd CCA gan y Pwyllgor Rheolaeth, fe yrrir hysbysiad i bob Clwb gan yr Ysgrifennydd Mygedol 14 diwrnod cyn y dyddiad a drefnir.
- 9(b) Gellir cynnal CCA ar gais o leiaf ddeg Aelod o'r Gymdeithas; bydd angen i'r Aelodau ddatgan y busnes sydd angen ei drafod yn y cyfarfod yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Mygedol.
- 9(c) Bydd 12 Cynrychiolydd yn gworwm yn y CCA.

10 Y CYFARFOD PENCAMPWRIAETH, GLASAWDAU A CHYFARFOD YR HYDREF

- 10(a) Cynhelir y cyfarfodydd uchod yn flynyddol. Fe'i trefnir gan y Pwyllgor Rheolaeth a bydd 4 Aelod yn gworwm.
- 10(b) Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Rheolaeth yn penderfynu'r dyddiadau a lleoliadau'r cystadlaethau uchod, ac fe'i cyhoeddir yn y CCB.
- 10(c) Pan fo'n bosib, fe drefnir Cyfarfod yr Hydref, pan mae'r Capten ar ei hail flwyddyn mewn swydd, yn ei Chlwb Cartref.

11 CYLLID

- 11(a) Bydd y Flwyddyn Gyllidol yn diweddu ar **31ain Hydref**
- 11(b) Penderfynir ar swm Tanysgrifiad Blynyddol Aelodau'r Gymdeithas, sy'n ddyledus ar 1af Ionawr, gan y Pwyllgor Cyllid ac fe'i cadarnheir yn y CCB.
- 11(c) Mewn Gemau Rhyng-Sirol, fe delir holl gostau teithio a llety gan y Gymdeithas, hyn yn atebol i gadarnhad y Pwyllgor Cyllid. Mewn Gemau Cartref, fe delir am ginio canol dydd a the'r ddau dîm a Swyddogion ar ddyletswydd gan y Gymdeithas.
- 11(ch) Mewn Gemau Cynderfynol a Gemau Terfynol, fe delir holl gostau rhesymol o lwfans uchafswm a bennir yn flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid. Bydd y Trefnydd yn ceisio cael y gwerth gorau am yr arian
- 11(d) Pan fydd y Trysorydd Mygedol yn gynorthwydd i'r Ysgrifennydd Mygedol, gall hawlio costau gwesty pan mae'n ofynnol iddi aros oddi cartref oherwydd lleoliadau pell.
- 11(dd) Gall yr Ysgrifennydd Mygedol hawlio costau gwesty pan mae'n ofynnol iddi aros oddi cartref oherwydd lleoliadau pell. Bydd y Gymdeithas hefyd yn talu am ginio ganol dydd a the i'r Ysgrifennydd Mygedol a'i chynorthwydd.
- 11(e) Caiff y Capten hawlio'n ffurfiol pob costau yn ystod ei thymor mewn swydd a chaiff lwfans blynyddol i dalu am gostau achlysurol. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn pennu'r lwfans yma yn flynyddol.
- 11(f) Treuliau Teithio:
 - Gall Swyddogion wneud cais ffurfiol am gostau teithio a wnaethpwyd wrth fynychu cyfarfodydd. Gall Dewiswyr wneud cais am gostau teithio wrth fynychu Gemau Sirol.
 - Caiff costau teithio eu cadarnhau'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid.
- 11(ff) Tlysau
 - Eiddo'r Gymdeithas yw'r holl dlysau a bydd Enillwyr y Tlysau yn arwyddo i gytuno i fod yn gyfrifol am y tlysau tra yn eu gofal.
 - Bydd y Gymdeithas yn talu am engrafu'r holl dlysau, gan gynnwys tlysau'r Genethod Ifanc.
 - Bydd y Gymdeithas hefyd yn talu cost yswirio'r tlysau.
- 11(g) Cyfraniadau:
Bydd y Gymdeithas yn cyfrannu swm o arian tuag at **Golff Cymru a'r Sefydliad Golff**, y swm i'w bennu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid.

12 IWNIFORMAU a RHUBANAU LLIWIAU

- 12(a) Cyflenwir crysau tîm swyddogol a siwmperi gan y Gymdeithas a dylid eu gwisgo gyda throwsus, trowsus byr teilwredig neu sgert ynghyd â bathodynau os eu henillwyd.
- 12(b) I ennill Rhubanau Lliwiau'r Sir, rhaid i chwaraewr fod wedi cynrychioli'r Sir mewn tair gêm.

13 YR IS-BWYLLGOR DEWIS TÎM

- 13(a) Caiff Tîm y Sir ei ddewis gan Is-Bwyllgor o 5, gan gynnwys y Capten fel Cadeirydd a phleidlais derfynol, yr Is-Gapten, Y Capten Blaenrol a'r ddwy Ddewisydd (gweler para. 6(d) uchod).
- 13(b) Bydd angen tri i gael cworwm.

14 LAWNTIAU SIROL

Bydd Pencampwriaeth y Sir a phob gêm Sir yn gorfod cael eu chwarae ar Lawntiau Sirol fel y diffinnir gan Golff Cymru. Mae'r clybiau canlynol yn gymwys: Abersoch, Caergybi, Caernarfon, Clwb Golff Brenhinol Dewi Sant (Harlech), Clybiau Golff Gogledd Cymru a Maesdu (Llandudno), Clwb Golff Sir Gaernarfon (Conwy), Nefyn a'r Cylch, Pwllheli, Porthmadog a Phorth Llechog.

15 GENETHOD

Yn flynyddol, bydd y Pwyllgor Rheolaeth yn apwyntio Rheolwr i'r Genethod lau a fydd yn gyfrifol am drefnu cystadlaethau a hyfforddi'r Genethod dan 18 oed.

RHEOLIADAU CYFARFOD PENCAMPWRIAETH SIROL

Dyma gyfarfod dau ddiwrnod a gynhelir yn flynyddol, fel arfer ar y Dydd Mawrth a Dydd Mercher yn dilyn Y Pasg, ac fe'i trefnir gan y Pwyllgor Rheolaeth.

1 CYMWYSTERAU

- 1(a) Rhaid i bob cystadleuydd fod o'r rhyw fenywaidd, un ai wedi ei geni yn fenywaidd neu wedi cael ei haseinio yn fenywaidd. (Gweler Polisi Rhyw llawn Golff Cymru ar eu gwefan)
- 1(b) Bydd angen i'r cystadleuydd fod yn Aelod llawn (wedi talu tanysgrifiad) o Gymdeithas y Sir gyda graddnod CONGU o **24** neu is.
- 1(c) Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd gael Pro neu aelod o staff y lawntiau fel cadî.

2 TÂL MYNEDIAD

Pennir y tâl yma yn flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a rhaid ei yrru i mewn gyda'r ffurflen gais swyddogol.

3 CYRSIAU PENCAMPWRIAETH

Rhestrir y rhain o dan Lawntiau Sirol (Gweler Rheol 14 o'r Cyfansoddiad).

4 TÎS

Rhaid defnyddio tîs Golff Cymru trwy gydol y bencampwriaeth ac fe'u cymeradwyir gan y Pwyllgor Rheolaeth.

5 FFURF Y GYSTADLEUAETH

- 5(a)(i) Chwaraeir **rownd** Pencampwriaeth y Sir fel **rownd gymhwyso medal dros 18 twll**. Bydd y cystadleuwyr gyda'r 8 sgôr gros gorau yn ymryson am y brif Bencampwriaeth a bydd y cystadleuwyr gyda'r 8 sgôr gorau nesaf yn ymryson am Gwpan Nancy Wright. Chwaraeir yr ymryson yn y ddwy gystadleuaeth mewn ffurf gêm bwrw allan.
- 5(a)(ii) Bydd pob gêm, gan gynnwys y rownd derfynol, yn un rownd o 18 twll.

- 5(a)(iii) Bydd gemau sy'n gorffen yn gyfartal ar ddiwedd 18 twll yn parhau nes y bydd enillydd.
- 5(b) Cystadlaethau Atodol ar y ddau ddiwrnod:
- 5(b)(i) Bydd y cystadlaethau hyn (fel arfer, pedwarawdau ar y diwrnod cyntaf a Chystadleuaeth Stableford Gymwys unigolyn ar yr ail ddiwrnod) yn agored i holl Aelodau'r Sir gyda graddnod o 30 neu lai gyda tâl mynediad ar gyfer pob cystadleuaeth.
- 5(b)(ii) Penderfynir ar ffurf y cystadlaethau yma gan y Pwyllgor Rheolaeth a'r tâl mynediad gan y Pwyllgor Cyllid.
- 5(c) Bugis
- 5(c)(i) Cystadleuaeth y Bencampwriaeth
Bydd holl gystadleuwyr yn y bencampwriaeth yn cerdded o amgylch y cwrs heblaw bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i dderbyn o flaen llaw gan y Pwyllgor Rheolaeth.
- 5(c)(ii) Cystadlaethau Atodol
Gellir defnyddio bygis yn y cystadlaethau atodol; y cyntaf i'r felin.....

6 TLYSAU A GWOBRAU

- 6(a) Eiddo'r Gymdeithas fydd yr holl dlysau a bydd angen i enillwyr arwyddo am y tlysau fel y byddant yn cael eu cyflwyno iddynt.
- 6(b) Penderfynir ar werth y gwobrau a'r talebau gan y Pwyllgor Rheolaeth.
- 6(c)(i) Bydd enillydd y Bencampwriaeth yn Bencampwr y Sir a bydd yn ddeilydd Tlws y Bencampwriaeth am y flwyddyn.
- 6(c)(ii) Gwahoddir y Clwb sy'n cynnal y Bencampwriaeth, trwy Gaptten y Merched, i brynu gwobr i'r Pencampwr. Bydd cost y wobwr yn cael ei benderfynu ac fe delir amdano gan y Gymdeithas.
- 6(ch) Bydd yr ail yn y Bencampwriaeth yn derbyn Hambwrdd yr Ail ynghyd â thaleb.
- 6(d) Bydd y cystadleuwyr a gollodd yn y rownd gynderfynol yn derbyn talebau.
- 6(dd) Bydd y cystadleuwyr a gollodd yn y rownd gogynderfynol yn derbyn talebau.

- 6(e) Bydd y cystadleuydd gyda'r sgôr gros gorau dros 18 twll yn ystod y rownd gymhwyso yn derbyn Hambwrdd Mrs Norman Jones ynghyd â gwobr yn rhoddedig gan Gaptten y Sir.
- 6(f) Bydd y cystadleuydd gyda'r sgôr net gorau dros 18 twll yn ystod y rownd gymhwyso yn derbyn taleb.
- 6(ff) Bydd enillydd y gystadleuaeth bwrw allan yn dilyn yr ail gyfres o sgoriau yn derbyn Cwpan Nancy Wright a thaleb.
- 6(g) Bydd yr ail yn yr ail gyfres yn derbyn taleb.
- 6(ng) Bydd y cystadleuwyr a gollodd yn y rownd gynderfynol Cwpan Nancy Wright yn derbyn talebau.
- 6(h) Bydd y sgôr gros gorau gan aelod o Adran y Genethod Iau yn ennill Cwpan Ruth Ferguson a thaleb.

7 GWOBRAU / TALEBAU AM Y CYSTADLAETHAU ATODOL

Penderfynir ar y rhain gan y Pwyllgor Rheolaeth a byddant yn ddibynnol ar y nifer o geisiadau.

RHEOLIADAU AR GYFER Y CYFARFOD PEDWARAWDAU (GREENSOMES)

Cyfarfod un diwrnod yw'r Cyfarfod Pedwarawdau, a gynhelir, fel arfer, ar y trydydd Dydd Llun ym mis Awst. Fe'i trefnir gan y Pwyllgor Rheolaeth.

1 CYMWYSTERAU

- 1(a) Rhaid i bob cystadleuydd fod o'r rhyw fenywaidd, un ai wedi ei geni yn fenywaidd neu wedi cael ei haseinio yn fenywaidd. (Gweler polisi rhyw llawn Golff Cymru ar eu gwefan)
- 1(b) Bydd angen i'r cystadleuydd fod yn Aelod llawn (wedi talu tanysgrifiad) o Gymdeithas y Sir gyda graddnod CONGU o **36** neu is.

2 TÂL MYNEDIAD

Pennir y tâl yma yn flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a rhaid ei yrru i mewn gyda'r ffurflen gais swyddogol.

3 CYRSIAU

- 3(a) Chwaraeir y Gystadleuaeth Pedwarawdau ar gwrs gwahanol i'r Bencampwriaeth a Chyfarfod yr Hydref yn yr un flwyddyn.
- 3(b) Penderfynir ar leoliad y gystadleuaeth yn flynyddol, ddwy flynedd ymlaen llaw, gan y Pwyllgor Rheolaeth.

4 TÎS

Rhaid defnyddio tîs Golff Cymru trwy gydol y gystadleuaeth ac fe'u cymeradwyir gan y Pwyllgor Rheolaeth.

5 FFURF

Chwaraeir Cystadleuaeth Pedwarawdau Stableford 18 twll.

6 TLYSAU A GWOBRAU

- 6(a) Bydd yr enillwyr yn derbyn Hambyrddau'r Sir am y flwyddyn.
- 6(b) Bydd yr enillwyr yn arwyddo am eu tlysau wrth eu derbyn.
- 6(c) Yn ogystal, cyflwynir talebau gyda'u gwerth yn ddibynol ar y nifer fydd yn cystadlu.

RHEOLIADAU CYFARFOD YR HYDREF

Cyfarfod dau ddiwrnod yw'r digwyddiad yma a gynhelir yn flynyddol, fel arfer ar y Dyddiau Llun a Mawrth cyntaf ym mis Hydref. Fe'i trefnir gan y Pwyllgor Rheolaeth.

1 CYMWYSTERAU

- 1(a) Rhaid i bob cystadleuwr fod o'r rhyw fenywaidd, un ai wedi ei geni yn fenywaidd neu wedi cael ei haseinio yn fenywaidd. (Gweler polisi rhyw llawn Golff Cymru ar eu gwefan)
- 1(b) Bydd angen i'r cystadleuwr fod yn Aelod llawn (wedi talu tanysgrifiad) o Gymdeithas y Sir gyda graddnod CONGU o **36** neu is.

2 TÂL MYNEDIAD

Bydd y tâl yma yn cael ei bennu yn flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a bydd angen ei yrru i mewn gyda'r ffurflen gais swyddogol.

3 CYRSIAU

- 3(a) Bydd Cyfarfod yr Hydref yn cael ei gynnal ar gwrs mewn ardal wahanol i'r cwrs lle y cynhelir y Bencampwriaeth yr un flwyddyn.
- 3(b) Penderfynir ar leoliad y cyfarfod yn flynyddol gan y Pwyllgor Rheolaeth, dwy flynedd ymlaen llaw.
- 3(c) Pan fo'n bosib, cynhelir Cyfarfod yr Hydref ym mlwyddyn olaf y Capten ar ei chwrs ei hun.

4 TÎS

Rhaid defnyddio tîs Golff Cymru trwy gydol y gystadleuaeth ac fe'u cymeradwyir gan y Pwyllgor Rheolaeth.

5 FFURF Y CYSTADLAETHAU (ers CCB 2009)

- 5(a) MEDAL:
 - 5(a)(i) Bydd Cystadleuaeth Medal 36 Twll Gros are gyfer Adran Graddnodau 1.
 - 5(a)(ii) Bydd Cystadleuaeth Medal 36 Twll Gros are gyfer Adran Graddnodau 2.
 - 5(a)(iii) Bydd Cystadleuaeth Medal 18 Twll Gros ar bob diwrnod.
 - 5(a)(iv) Bydd Cystadleuaeth Medal 18 Twll Net ar bob diwrnod mewn 2 o adrannau os bydd y nifer o ymgeiswyr yn cyfiawnhau hynny.
- 5(b) STABLEFORD: Bydd cystadleuaeth ar wahân Stableford i unigolion ar bob diwrnod.
- 5(c) Dewis Cystadlaethau:
 - Gall chwaraewyr ddewis pa gystadleuaeth maent eisiau chwarae ynddi ar bob diwrnod.

6 TLYSAU A GWOBRAU

- 6(a) Eiddo'r Gymdeithas fydd yr holl dlysau a bydd angen i enillwyr arwyddo am y tlysau fel y byddant yn cael eu cyflwyno iddynt.
- 6(b) Bydd nifer a gwerth y gwobrau yn ddibynnol ar y nifer o geisiadau a geir.
- 6(c) Cyflwynir gwobr mewn **ffurf taleb** gyda phob tlws, gyda'i werth yn cael ei bennu gan y Pwyllgor Cyllid.
- 6(ch) Nifer y Gwobrau yn y gystadleuaeth dau ddiwrnod
- 6(ch)(i) Ni all cystadleuwr dderbyn mwy nag un wobwr ar un diwrnod, ar wahân i wobrau Merched Hŷn a Gwobrau Tîm.
- 6(ch)(ii) Ni all cystadleuwr dderbyn mwy na dwy wobwr yn ystod yr holl gyfarfod, ar wahân i Wobrau Tîm.

7 TLYSAU MEDAL/CWPANAU

- 7(a) Bydd Tlws y Merched Hŷn yn cael ei chyflwyno i'r Foneddiges, oedran 60 neu hŷn, a fydd yn dychwelyd y sgôr Net gorau dros 18 twll yn y Rownd Fedal ar y diwrnod cyntaf.
- 7(b) Gwobrau Tîm:
- 7(b)(i) Bydd Tancard y Tîm Safonol (Scratch) yn cael ei ennill gan y Clwb gyda'r Tîm sy'n dychwelyd y cyfanswm o dri sgôr gros isaf allan o 4 chwaraewr dros 18 twll ar y diwrnod cyntaf. Rhaid i aelodau'r tîm gael eu henwebu gan Gapten y Tîm cyn cychwyn chwarae.
- 7(b)(ii) Bydd Tancard y Tîm Graddnod (Handicap) yn cael ei ennill gan y Clwb gyda'r Tîm sy'n dychwelyd y cyfanswm o dri sgôr net isaf allan o 4 chwaraewr dros 18 twll ar y diwrnod cyntaf. Rhaid i aelodau'r tîm gael eu henwebu gan Gapten y Tîm cyn cychwyn chwarae.
- Gall chwaraewyr gynrychioli'r Tîm Safonol a'r Tîm Graddnod
- 7(c) Cyflwynir Cwpan Platt am y sgôr gros 36 twll gorau yn yr Adran Arian
- 7(ch) Cyflwynir Tlws Barbara Jenkin am y sgôr gros 36 twll gorau yn yr Adran Efydd
- 7(d) Yn ogystal, fe gyflwynir gwobrau (talebau) am y sgôr gros gorau dros 18 twll ar y ddau ddiwrnod

- 7(dd) Bydd hefyd Wobrau Net dros 18 twll yn y ddwy adran ar y ddau ddiwrnod os fod y nifer o ymgeiswyr wedi cyfiawnhau hynny

8 GWOBRAU STABLEFORD.

Bydd gwerth y Gwobrau a gyflwynir yn ddibynnol ar y nifer o geisiadau a dderbynnir i chwarae.

RHEOLIADAU AM GYSTADLAETHAU'R GENETHOD IAU

Bydd **Rheolwr y Genethod Iau** (a apwyntir yn flynyddol gan y Pwyllgor), yn ymdrechu i drefnu Diwrnod Cystadleuaeth yn y Gwanwyn a Chyfarfod Pencampwriaeth yn yr Haf.

Gall **Cystadlaethau Eraill** (e.e. Cystadlaethau Trefn Teilyngdod) gael eu trefnu yn ystod gwyliau ysgol.

Gall Rheolwr y Genethod Iau gael gwahoddiad i'r Pwyllgor Rheolaeth neu'r Pwyllgor Cyllid pan fo angen.

1 CYMWYSTERAU

- 1(a) Bydd angen i'r genethod fod dan 18 oed ar Ionawr 1^{af} ym mlwyddyn y gystadleuaeth er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Gemau'r Sir.
- 1(b) Disgwylir i'r Tâl Aelodaeth (penderfynir y swm gan y Pwyllgor Cyllid) gael ei dalu trwy gynrychiolydd Clwb yr eneth iau.

2 TLYSAU'R BENCAMPWRIAETH

- 2(a) Cyflwynir Cwpan Cater i enillydd y Sgôr Gros Gorau dros 18 twll. Yr enillydd fydd Pencampwr Iau'r Sir.
- 2(b) Cyflwynir Cwpan K. M. Jones i enillydd y Sgôr Graddnod net Gorau dros 18 twll.
- 2(c) Cyflwynir Cwpan Gwyneth Rowlands i'r eneth (heb raddnod) sydd gyda'r sgôr gorau dros 9 twll, neu dros gwrs byrrach ar ddisgresiwn y Rheolwr.

3 GWOBRAU

Rhoddir lwfans tuag at brynu gwobrau i Gystadlaethau'r Genethod Iau. Cytunir ar swm y lwfans yn flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid a Rheolwr y Genethod Iau.

4 CADIS

- 4(a) Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd gael cadid ym Mhencampwriaeth y Genethod Iau na Phencampwriaeth y Sir.
- 4(b) Caniateir cadis mewn cystadlaethau atodol eraill. Fodd bynnag, ni chaniateir i gystadleuydd gael Pro, aelod o staff y lawntiau na pherthynas yn gadi.

5 BYGIS

- 5(a) Pencampwriaeth y Genethod Iau a Phencampwriaeth y Sir
Bydd pob cystadleuydd yn cerdded yn y cystadlaethau hyn ar wahân i'r rhai hynny sydd gyda chaniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y Pwyllgor Rheolaeth.
- 5(b) Cystadlaethau Atodol
Caniateir defnyddio bygis yn y cystadlaethau atodol; y cyntaf i'r felin.....